OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 3388 (Cy. 225)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Cig Ffres (Dulliau Rheoli Cig Eidion) (Rhif 2) (Diwygio) (Cymru) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *29 Rhagfyr 2000* |
| *Yn dod i rym (Sylwer: yn uniaith Saesneg y gwnaed y Rheoliadau hyn a chyfieithiad ohonynt yw'r testun Cymraeg).* | *1 Ionawr 2001* |

Drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 16(1)(b) ac (f), 17(1), 26 a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ôl rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cig Ffres (Dulliau Rheoli Cig Eidion) (Rhif 2) (Diwygio) (Cymru) 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig a deuant i rym ar 1 Ionawr 2001.

### Diwygiadau i Reoliadau Cig Ffres (Dulliau Rheoli Cig Eidion) (Rhif 2) 1996

**2.**—(1) Mewn perthynas â Chymru, mae Rheoliadau Cig Ffres (Dulliau Rheoli Cig Eidion) (Rhif 2) 1996(**3**) yn cael eu diwygio yn unol â pharagraff 2 o'r rheoliad hwn.

(2) Mae'r rheoliad canlynol yn cael ei fewnosod rhwng rheoliad 3 (gwahardd gwerthu cig o anifeiliaid buchol hyn) a rheoliad 4 (y Cynllun Gwarantu Cig Eidion)—

(**1**) 1990 p.16.
(**2**) Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999 / 672).
(**3**) OS 1996/2097, a ddiwygiwyd gan OS 1996/2522 ac OS 2000/656.

"**Enforcement of Article 2.1 of Commission Regulation (EC) No. 2700/2000**

**3A.** No person shall contravene Article 2.1 of Commission Regulation (EC) No. 2777/2000 adopting exceptional support measures for the beef marke(**4**)).".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

*Jane Hutt*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

29 Rhagfyr 2000

(**4**) OJ Rhif L321, 19.12.2000, t.47.
(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cig Ffres (Dulliau Rheoli Cig Eidion) (Rhif 2) 1996 (O.S. 1996/2097, fel y'i diwygiwyd eisoes) ("Rheoliadau 1996") mewn perthynas â Chymru. Mae Rheoliadau 1996 yn gymwys i Brydain Fawr gyfan.

**2.** Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer gorfodi Erthygl 2.1 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2277/2000 yn mabwysiadu mesurau cymorth eithriadol ar gyfer y farchnad cig eidion (OJ Rhif L321, 19.12.2000, t.47). Mae'r Erthygl honno, y daw ei heffaith i ben ar 30 Mehefin 2001, yn darparu mai dim ond os ceir canlyniad prawf negyddol ar gyfer enseffalopathi sbyngffurf buchol drwy brawf cyflym a gymeradwywyd fel y cyfeirir ato yn Atodiad IV(A) o Benderfyniad y Comisiwn 98/272/EC (OJ Rhif L122, 22.4.1998, t.59, fel y'i diwygiwyd) y gellir rhyddhau cig o anifeiliaid buchol sy'n fwy na 30 mis oed ac sydd wedi'u cigydda yn y Gymuned Ewropeaidd ar ôl 1 Ionawr 2001. Mewnosodwyd Erthygl IV(A) yn y Penderfyniad hwnnw gan Benderfyniad y Comisiwn 2000/374/EC (OJ Rhif L135, 8.6.2000, t.27).

**3.** Yn unol ag adran 65(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (1998 p.38) a Rheol Sefydlog 22.3 o Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'r Gweinidog Cynulliad wedi penderfynu nad yw'n rhesymol ymarferol cynnal arfarniad rheoliadol o dan adran 65 o'r Ddeddf oherwydd y dyddiad cau i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, sef 1 Ionawr 2001. Ymgynghorwyd yn unol ag adran 48(4) a (4B) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (1990 p.16) a gellir cael copïau oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 1, Southgate House, Caerdydd CF10 1EN.

**4.** Am yr un rheswm, yn unol ag adran 66(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 22.1, penderfynodd y Gweinidog Cynulliad nad oedd yn rhesymol ymarferol gwneud y Rheoliadau hyn yn Gymraeg a Saesneg. Felly mae'r testun Cymraeg yn gyfieithiad o'r Rheoliadau hyn, sydd wedi'u gwneud yn uniaith Saesneg.